PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 156 Rhif 44 Tachwedd 2, 2023 50c.

## Galanas yn y Dwyrain Canol

Ar fore dydd Sadwrn 7 Hydref, lansiodd Hamas ymosodiadau roced ar Israel gan arwain at y cynnydd mwyaf mewn trais a welwyd yn yr ardal.

Bu farw miloedd o Israeliaid ac anafwyd llawer mwy. Dyma oedd yr ymosodiad mwyaf marwol ar Israel yn y degawdau diwethaf. Cipiwyd pobl gyffredin, yn blant ac yn fenywod gan yr ymosodwyr.

Yn Gaza, lladdwyd miloedd ac anafwyd llawer. Mae cyrchoedd awyr wedi dinistrio cartrefi, ysgolion, meddygfeydd a chyfleusterau cyfathrebu. Mae ysbytai, oedd dan bwysau mawr yn barod, wedi eu llethu gan gleifion ac mae cannoedd o filoedd o bobl wedi gorfod ffoi.

A ninnau wedi'n syfrdanu gan y galar, y dioddef a'r dychryn sydd wedi meddiannu'r Dwyrain Canol, mae'n siŵr bod ein meddyliau ni i gyd yn troi at y bobl ddiniwed sydd wedi cael eu dal ynghanol y fath gyflafan annynol a brawychus. I'r rhai hynny ohonom sy'n awyddus i gynnig cymorth o ryw fath, mae Apêl Cymorth Cristnogol yn gyfle i wneud cyfraniad ariannol i leddfu peth ar y sefyllfa, ac mae cyfle hefyd i arwyddo deiseb yn galw ar lywodraeth y Deyrnas Unedig i wneud y cyfan a fedr i sicrhau heddwch.

Er mwyn cael mwy o fanylion neu gyfrannu, at Apêl y Dwyrain Canol Cymorth Cristnogol, ewch i https://www.christianaid.org.uk/appeals/emergencies/middle-east-crisis-appeal neu dilynwch y ddolen drwy wefan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.



## Diolchgarwch yng Nghaersalem




Bore Sul 15 Hydref cynhaliwyd oedfa ddiolchgarwch o dan ofal rhai o ieuenctid yr eglwys. Cyflwynwyd datganiadau pwrpasol ar lafar ac ar gân. Derbyniwyd rhoddion yn ystod y gwasanaeth er budd 'Pantri'r Pentref'. Diolch am bob cyfraniad.

## Colofn Geir-iau

### Fy stori yn y brifysgol



Mae'n bleser gallu ysgrifennu erthygl arall yn *Y Tyst*, ac rwyf eisiau defnyddio'r cyfle yma i edrych 'nôl efallai ar fy nghyfnod yn y brifysgol ac ar fy mhrofiadau Cristnogol dwi wedi cael.

**Bwrw golwg**

Dwi ar hyn o bryd yn fy mlwyddyn olaf, ac mae'r ddwy flynedd wedi hedfan heibio. Fel dywedais yn yr erthygl ddiwethaf rwy'n rhan o'r Undeb Cristnogol ym mhrifysgol Aberystwyth ac mae wedi bod yn bleser pur cael ymwneud â'r Undeb. Er fy mod wedi tyfu i fyny yn mynd i'r capel a'r ysgol Sul efallai nad oeddwn yn ei weld yn ddim mwy na thraddodiad. Ond wrth ddod i Brifysgol roedd yn gyfle i ddechrau newydd yn fy mywyd ac roedd yn gyfle hefyd i ddod yn annibynnol. Ac yn y cyfnod hwn dwi wedi cael fy adnewyddu'n Gristion, gan fy ngalluogi i ddeall arwyddocâd a grym dwfn y newyddion da, deall cymdeithas a'r Eglwys, a dirnad pwrpas bod yn Gristion.

Mae bod yn rhan o'r gymdeithas wedi'i chynnal fi fel person ac wedi galluogi fi i ddod i nabod pobl o wahanol gefndiroedd Cristnogol ond yn un mewn Crist. Ac mae hynny'n dod a gobaith ein bod ni'n gallu dod at ein gilydd ar draws y byd i addoli. Mae hefyd wedi bod yn llawer o hwyl i fynd i wneud gwahanol weithgareddau fel penwythnos preswyl sy'n digwydd bob blwyddyn yn Bala. Dyma ble mae'r grŵp cyfan o'r Undeb Cristnogol yn aros gyda'i gilydd ym Mryn-y-groes, ac yn cael cyfle i ddod i nabod ei gilydd ond hefyd cael gwledd o ddysgeidiaeth hefyd.

**Annibyniaeth ac ymrwymiad**

Yn hytrach na chydymffurfio â normau cymdeithasol, cofleidiais fy annibyniaeth ac anhunanoldeb trwy ddewis dilyn Iesu. Mae'r ymrwymiad hwn yn ymestyn y tu hwnt i draddodiadau'r Sul a'r Nadolig yn unig; mae wedi dod yn rhan annatod o fy hunaniaeth.

Ac wrth gwrs nid yw dod yn Gristion yn gwneud eich bywyd yn rhwyddach rydych dal i wynebu sialensiau a phwysau gwaith prifysgol. A'r heriau wrth gwrs gyda rhai pobl yn cwestiynu eich ffydd, mae gallu fod yn anodd hefyd. Ond wrth

*parhad ar y dudalen gefn*

# MYFYRDOD O'R BEIBL
## Y Beibl a'i bobl (4): Moses

Y cymeriad allweddol nesaf yn stori fawr y Beibl yw Moses. Fel yn achos Joseff, mae hanes Moses yn un lled gyfarwydd. Mae hanes Adda ac Efa, Noa a Joseff i'w gael yn llyfr Genesis; mae cefndir Moses i'w gael yn ail lyfr y Beibl: Exodus.



### Baban mewn perygl

Cafodd Moses ei eni i deulu Iddewig yn yr Aifft pan roedd Pharo'n gormesu'r Iddewon. Gan fod poblogaeth yr Iddewon wedi tyfu'n gyflym yn yr Aifft, ceisiodd Pharo reoli'r boblogaeth trwy drefnu lladd pob mab a anwyd i deulu Iddewig (Exodus 1:16). Er mwyn achub Moses rhag cael ei ladd, dyma ei fam yn ei guddio mewn cawell a'i osod i arnofio ar ddŵr yr afon Neil. Mae chwaer Moses, Miriam, yn gwylio'r fasged i wneud yn siŵr fod ei brawd bach yn ddiogel. Yna, wrth gerdded ar lan yr afon, mae merch Pharo yn darganfod y gawell gan dosturio wrth y baban a phenderfynu ei fabwysiadu. Mae Miriam yn rhedeg at y dywysoges gan awgrymu wrthi y gall un o famau'r Iddewon fagu'r plentyn ar ei rhan. Mae hi'n meddwl fod hyn yn syniad da felly mae Miriam yn cario'r babi yn ôl at ei fam naturiol. Wrth gwrs, nid cyd-ddigwyddiad yw hyn ond Duw sy'n goruwchlywodraethu dros y sefyllfa.

### Magwraeth freintiedig

Ar ôl i Moses gyrraedd ei arddegau, mae Miriam a'i mam yn ei drosglwyddo i Pharo a'i merch er mwyn ei fagu yn llys brenhinol yr Aifft. Er iddo ddod yn gyfarwydd â'r Eifftiaid – eu diwylliant a'u harferion – mae Moses yn gwybod ei fod yn wahanol gan ei fod wedi'i eni'n Iddew. Un diwrnod, mae'n amddiffyn Iddew sy'n cael ei gam-drin gan un o swyddogion yr Aifft (Exodus 2:11) trwy ladd y swyddog a chuddio'i gorff yn y tywod. Am iddo wneud hyn, mae'n ffoi o'r Aifft i wlad Midian (gogledd-orllewin Arabia).

### Newid chwyldroadol

Mae bywyd Moses yn newid yn chwyldroadol ym Midian. Yno, mae Duw yn siarad gydag ef gan ddangos ei hun iddo mewn perth losg (Exodus 3:3). Pan mae Moses yn gofyn i Dduw beth yw ei enw, dyma beth yw ei ymateb: "Ydwyf yr hyn ydwyf. Dywed hyn wrth bobl Israel, 'Ydwyf sydd wedi fy anfon atoch ... Yr Arglwydd, Duw eich tadau, Duw Abraham, Duw Isaac a Duw Jacob ...' (Exodus 3:14–15). Ar ôl dangos ei hun i Moses, mae Duw'n ei alw i wneud rhywbeth rhyfeddol: trwy Moses, mae Duw yn mynd i achub ei bobl a rhyddhau'r Iddewon o'r Aifft.

### Deg pla

Nid yw Moses yn awyddus iawn i ofyn i Pharo ryddhau'r Iddewon. Ond, gyda help ei frawd Aaron, yn y pen draw, mae Moses yn dychwelyd i'r Aifft gan ddweud fod yn rhaid i Pharo ryddhau'r Iddewon. Wrth gwrs, mae Pharo'n gwrthod gwneud hyn gan mai'r Iddewon oedd y prif weithlu. Heb yr Iddewon, pwy oedd yn mynd i adeiladu'r pyramidiau iddo? Gan fod Pharo'n gwrthod, mae Duw'n anfon deg pla i'r Aifft sy'n cynnwys llyffaint, llau, pryfed a chornwydydd. Ond, er gwaetha'r arwyddion hyn, nid yw Pharo'n newid ei feddwl. Yn hytrach, mae'n caledu ei galon gan wrthod gwrando.

Y degfed pla yw'r un mwyaf difrifol. Mae Duw'n rhybuddio Pharo fod pob mab cyntaf-anedig yn yr Aifft yn mynd i farw oni bai fod y teulu yn lladd oen ac yn taenu'r gwaed ar ffrâm drws eu tŷ. Er hynny, nid yw Pharo'n gwrando. Yn hytrach, mae'n caledu ei galon eto gan orfodi'r Arglwydd i daro'r Aifft â'r pla hwn. Er bod Pharo'n rhyddhau'r Iddewon ar ôl y degfed pla, mae'n newid ei feddwl gan anfon ei filwyr ar eu hôl. Er hynny, mae Duw'n wyrthiol yn agor y Môr Coch gan ganiatáu i'r Iddewon ddianc a ffoi rhag milwyr yr Aifft.

### Moses yr achubwr

Trwy Moses, mae Duw yn achub ei bobl. Dyn amherffaith oedd Moses oedd yn aml yn amau Duw ac nad oedd yn rhy awyddus i gyflawni'r hyn yr oedd Duw eisiau iddo ei wneud. Er hynny, mae Moses yn gysgod amherffaith o rywun llawer gwell: yr Arglwydd Iesu. Fel Moses, mae Iesu, Mab Duw, wedi dod i'r byd i achub ei bobl, nid o afael yr Aifft a Pharo, ond o afael pechod a marwolaeth. Gwaed yr oen wnaeth achub yr Iddewon rhag y degfed pla; Iesu yw Oen Duw sydd wedi dod i 'gymryd ymaith pechodau'r byd' trwy wynebu'r gosb yr ydym yn ei haeddu ar y groes. Achubodd Duw'r Iddewon mewn ffordd wyrthiol trwy agor y Môr Coch er mwyn iddynt ddianc rhag eu gelynion. Ar y trydydd dydd, mewn ffordd cwbl wyrthiol, agorodd Duw fedd Iesu gan ei atgyfodi'n fyw. Mae Duw'n addo y bydd unrhyw un sy'n ymddiried ynddo ef yn cael dianc rhag y gelyn olaf sy'n ein llethu: marwolaeth.

### Gras a chariad

Wrth ddarllen y Beibl, mae'n bwysig cofio nad llyfr annelwig a digyfeiriad ydyw; nid casgliad o wersi moesol digyswllt mohono. Cyfrol am Iesu Grist yw'r Beibl o'i dudalen gyntaf i'w dudalen olaf. Cyfrol am sut mae Duw – yn ei ras a'i gariad – wedi gwneud ffordd i ni ddod ato fel Tad trwy Iesu. Felly, gallwn ddarllen y Beibl yn hyderus ac yn ddisgwylgar oherwydd trwy ddarllen y llyfr hwn rydym yn dod wyneb yn wyneb â'r Duw sydd wedi'n creu a'n caru.

*Gwilym Tudur*

## Mae'r prosiect Hawlio Heddwch eich angen CHI!



Dyma lun o Ffion Fielding sy'n arwain prosiect Hawlio Heddwch yn y Deml Heddwch, Caerdydd. Mae Ffion yn un o blant eglwys y Priordy, Caerfyrddin, ac ers rhai misoedd mae wedi bod yn codi ymwybyddiaeth am y Ddesieb Heddwch a lofnodwyd gan 400,000 o fenywod Cymru, ganrif yn ôl yn 1923–24. Mae modd gwylio'r fideo ohoni'n sôn am y prosiect ar wefan yr Undeb: annibynwyr.cymru, mae'r dudalen i'w gweld yn yr adran ar gyfer Y Rhwydwaith Heddwch o dan bennawd Gweithgareddau. Oes gennych chi amser i wirfoddoli ar y prosiect pwysig hwn?

Yr Adran Gydenwadol

TACHWEDD 2 2023 RHIF 140

## Hwb Trafod Cydenwadol



Daeth tua 60 o bobl ynghyd yn Neuadd Maenclochog ar 18 Hydref i drafod dyfodol ein heglwysi yn y dyddiau heriol hyn. Trefnwyd y cyfarfod gan Gyfundeb Annibynwyr Penfro, gyda chydweithrediad parod enwadau eraill. Roedd hi'n galonogol gweld cynifer wedi ymgynnull mewn ysbryd o gydweithio er mwyn sicrhau dyfodol achos Crist yng ngogledd sir Benfro.

Cafwyd arweiniad i'r prynhawn gan y Parchedigion Dyfrig Rees (Annibynwyr), Judith Morris (Bedyddwyr), Martin Spain (yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig) ac Ainsley Griffiths (yr Eglwys yng Nghymru). Ar ôl dished a baratowyd gan Mr Ian Eynon, cafwyd hanner awr o drafodaeth mewn grwpiau.

Pwrpas y grwpiau trafod oedd cyfnewid syniadau positif ac ymarferol fydd yn ein galluogi i gynnal ein heglwysi, ychwanegu at ein cynulleidfaoedd ac wynebu'r dyfodol gyda hyder ac optimistiaeth. Bu'r drafodaeth yn fywiog a chasglwyd nifer o syniadau diddorol at ei gilydd. Bydd ysgrifennydd y Cyfundeb nawr yn trefnu ac yn dosbarthu'r syniadau i'r rhai oedd yn bresennol, ac i'r rhai oedd yn methu bod yn y cyfarfod.

Bydd cyfarfod arall ym mis Chwefror pan fydd cyfle i'r eglwysi rannu unrhyw ddatblygiadau positif sydd wedi digwydd ers y cyfarfod hwn a thrafod y ffordd ymlaen yn fanylach. Y gobaith yw trefnu amser a fydd yn fwy cyfleus i'r rhai ifanc sy'n gweithio yn ystod y dydd.

Cyn cyhoeddi'r fendith, diolchodd y Parchg Ken Thomas, Llywydd y Cyfundeb, i bawb am eu cefnogaeth a'u harweiniad.

## Mae Rhaglenni Cymanfaoedd Canu Cydenwadol 2023–24 nawr ar gael!




Gellir eu harchebu trwy ffonio Helen Gibbon ar 01267290518 neu ebostio: helengibbon1@btinternet.com




**ARFOGI 23**

**TACHWEDD 17–19 | COLEG Y BALA**

*THEMA: TROI'R BYD BEN I WAERED*

Mae ARFOGI yn ddigwyddiad blynyddol i oedolion ifanc o bob rhan o Gymru a thu hwnt. Mae croeso i fyfyrwyr, teuluoedd ifanc ac unrhyw un yn eu 20au a 30au! Mwy o fanylion a chofrestru ar y ddolen hon: Arfogi – Souled Out Cymru

## Sul Diogelu, 19 Tachwedd

Cynhelir Sul Diogelu eleni ar 19 Tachwedd, i gyd-fynd ag Wythnos Diogelu yng Nghymru. Mae cynnal gwasanaeth Sul Diogelu yn gyfle gwych i godi ymwybyddiaeth am ddiogelu yn eich eglwys leol mewn modd cadarnhaol a chyfeillgar.

Yn ôl yr elusen ddiogelu thirtyoneeight.org, fe wnaeth eglwysi a gymerodd ran y llynedd adrodd bod:

- ymwybyddiaeth well o ddiogelu ymhlith aelodau'r eglwys gyda chynnydd yn y niferoedd sy'n teimlo eu bod yn gallu siarad am eu cam-drin am y tro cyntaf;
- pobl ychwanegol yn gwirfoddoli ar gyfer swyddi diogelu a gwaith plant ac ieuenctid;
- mwy o bobl yn cwblhau hyfforddiant diogelu a gwiriadau cofnodion troseddol;
- mwy o arweinwyr diogelu yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn eu rôl gan yr Eglwys.

Felly beth am drefnu gwasanaeth diogelu eleni?

Mae'r Panel Diogelu Cydenwadol wedi paratoi gwasanaeth Sul Diogelu ac mae yna ffilm newydd ar y ffordd. Am fwy o wybodaeth ewch i dudalen Sul Diogelu ar wefan y Panel: https://panel.cymru/cy/sul-diogelu



# Cadw'r cysylltiadau â Madagascar yn fyw

**O Gymru yr aeth y cenhadon cyntaf i Fadagascar yn 1818. Canfu grŵp o Gymru fu'n ymweld yr haf hwn fod y berthynas rhwng y ddwy wlad yn dal yn bwysig.**

Hwn oedd pumed ymweliad Sharon Rees, gweithiwr cenhadol yn Eglwys Undebol Llanfair yn y Rhondda, â Madagascar. Meddai, "Mae cymaint o gysylltiadau rhwng Llanfair a'n brodyr a chwiorydd ym Madagascar. Dros y 30 mlynedd diwethaf rydym wedi cael ein bendithio i groesawu dros 30 o wirfoddolwyr Malagasi i wasanaethu Duw yn ein cymuned ym Mhenrhys – gan helpu yn yr Ysgol Sul, y clwb gwaith cartref, y clwb crefftau, y caffi ac yn yr ysgol gynradd. Maent wedi cyfrannu cymaint; rydym wedi dysgu llawer oddi wrth ein gilydd ac mae cyfeillgarwch wedi parhau a thyfu dros y blynyddoedd.

"Roedd yn bleser arbennig i mi allu cyfarfod â nifer o gyn-wirfoddolwyr yn ystod ein hymweliad eleni. Un ohonynt oedd Hanta Kely. Daeth Hanta i Benrhys yn ferch swil 18 mlwydd oed yn 2001, ynghyd â gwirfoddolwr arall, Nicolas, a oedd yn gweithio yn swyddfa eglwys FJKM (Eglwys Bresbyteraidd Madagascar). Nawr maen nhw'n briod ac mae ganddyn nhw ddwy ferch, Kezia ac Enya; braf oedd eu gweld nhw hefyd.

"Ar ôl Penrhys, hyfforddodd Hanta fel gweithwraig gymdeithasol ac mae bellach yn gyfarwyddwr cartref plant Akany Avoko, lle bu'n byw fel plentyn gyda'i chwaer pan oeddent yn blant amddifad."

Ymwelodd Hanta a'i chyd-weithiwr Naomy (cyn-wirfoddolwr arall o Benrhys) â Chymru yn 2018, ar gyfer dathliadau daucanmlwyddiant y cenhadon cyntaf i Fadagascar.

### Ymweliadau ysbrydoledig

Roedd ymweld ag Akany Avoko yn brofiad emosiynol ac ysbrydoledig. Fel y dywedodd un ymwelydd: "Profi'r eithafion wnaethom yn y cartref plant: gweld babanod mis oed a oedd wedi'u gadael ar domen sbwriel ar y naill law, ac ar y llall cwrdd â phobl ifanc oedd mor awyddus i rannu eu huchelgais, eu gobeithion a'u breuddwydion. Mae yna gyfleoedd ar gyfer addysg hyd at lefel gradd ac i rai plant, Akany Avoko yw eu cartref nes iddynt briodi. Roedd yr awyrgylch yn llawn positifrwydd ac yn rhannu cariad Duw."

Yn Ysgol David Griffiths gerllaw daeth plant i'n cyfarch, yn chwifio baneri Cymru a Madagascar. Yn 2017 bu bron i'r ysgol gau oherwydd diffyg arian a'i chyflwr gwael. Mae ymdrechion codi arian yng Nghymru wedi helpu'r ysgol i atgyweirio'r to a phrynu cyflenwadau hanfodol. Roedd y Cyfarwyddwr (pennaeth) yn falch o ddangos



yr ystafell ddosbarth newydd sy'n cael ei hadeiladu i'w defnyddio ym mis Medi, gan egluro bod y plant wedi cyfrannu at y gost, er eu bod yn dod o deuluoedd tlawd.

### Etifeddiaeth genhadol

Sefydlodd y cenhadon Cymreig David Griffiths a David Jones, gyda phobl leol, yr ysgol gyntaf ym Madagascar. Llwyddasant i bregethu a dysgu yn y Falagaseg, wedi iddynt ei meistroli'n gyflym. Fe wnaethon nhw drawsgrifio'r iaith i lythrennau Rhufeinig a chwblhau'r cyfieithiad cyntaf o'r Beibl a deunydd diwinyddol arall. Erbyn 1830 roedd tua 15,000 o ddisgyblion wedi dysgu darllen y Falagaseg.

Bu i Jones a Griffiths hefyd adeiladu eglwysi o amgylch y brifddinas, gan ddenu llawer o bobl, a chydnabyddir eu bod wedi gosod seiliau'r eglwys Brotestannaidd yn Madagascar. Ffrwyth pennaf y genhadaeth hon yw Eglwys Iesu Grist ym Madagascar (FJKM), partner trwy Gyngor y Genhadaeth Fyd-eang (CWM) â'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig (URC), Eglwys Bresbyteraidd Cymru (EBC) ac Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Heddiw, mae gan FJKM fwy na chwe miliwn o aelodau ac mae'n dal i dyfu. (Mae gan EBC ac Undeb yr Annibynwyr lai nag 20,000 o aelodau yr un!)

Fe ymunom ni ag oedfa bore Sul yn un o eglwysi FJKM. Roedd y gwasanaeth yn dechrau am 6.30 y bore, ond roedd angen i ni fod yno erbyn 5.30 i fod yn sicr o gael sedd. Y Falagaseg oedd iaith yr oedfa, gydag ychydig eiriau i'n cyfarch yn Saesneg; ymatebom ni drwy ganu 'Calon Lân'.

Gerllaw'r eglwys roedd adeiladau'r hen ysgol genhadol, sydd i'w hailagor fel ysgol newydd ym mis Medi. Yn ystod y gwasanaeth gweddïwyd dros yr ysgol newydd a thros 18 o athrawon newydd, pob un yn aelodau o'r gynulleidfa.

Dywedodd un o'n grŵp: "Roedd yn galonogol gweld cymaint o athrawon a gweddïo drostynt. Cefais fy syfrdanu o glywed gan wraig y gweinidog ar ôl y gwasanaeth fod y dynion a'r merched hyn yn athrawon cymwys oedd yn cael eu cyflogi mewn ysgolion eraill, ond a oedd yn rhoi'r gorau i'w swyddi cyflogedig i gefnogi'r fenter eglwysig newydd hon. Ar y dechrau maen nhw'n gwneud hyn fel gwirfoddolwyr, nes bydd y gyllideb yn caniatáu iddyn nhw gael eu talu. Mae'n enghraifft nodedig o ffydd ac ymrwymiad."

### Cynyddu ymwybyddiaeth ac undod

Roedd ein hymweliad yn bosibl diolch i Miara Rabearisoa, sy'n gweithio i EBC yng Ngofalaeth Dwyrain Maldwyn, lle cafodd ei wraig Rebecca ei hordeinio a'i sefydlu'n weinidog fis Hydref eleni. Rebecca a Miara, ynghyd â'u teulu ym Madagascar, gynlluniodd fanylion ein taith, archebu pob dim a gofalu amdanom drwy gydol ein pythefnos yno.

Dywed Miara, "Rwy'n aml yn sôn wrth fy ffrindiau yma yng Nghymru am fy ngwlad brydferth, Madagascar. Rwy'n cynnal sgyrsiau ac yn trefnu digwyddiadau, ond rwyf bob amser eisiau i bobl weld yr harddwch a phrofi bywyd ym Madagascar drostynt eu hunain a chael gwybod mwy am y bobl Malagasi.

"Roeddwn i eisiau i'r ffrindiau hyn o eglwysi Cymru weld y fioamrywiaeth unigryw a phrofi ffordd pobl o fyw, ein diwylliannau, ein ffydd, yr eglwys, yr heriau a'u gwydnwch. Roeddwn i am iddyn nhw weld gwahanol brosiectau ac ymweld ag ysgolion. Roeddwn hefyd am iddyn nhw weld realiti trist tlodi sy'n effeithio ar filiynau o bobl Madagascar a sut mae newid yn yr hinsawdd a'r pandemig wedi gwaethygu'r sefyllfa honno.


"Roedd ein hymweliad yn arwyddocaol ac yn galonogol i'r bobl a'r mudiadau y bu i ni gyfarfod â nhw. Cafodd ffrindiau o Gymru gyfle i ddeall y cyd-destun a gweld y gwaith y mae'r bobl a'r mudiadau hynny'n ei wneud. Byddant yn gobeithio y bydd ein hymweliad yn creu ymwybyddiaeth ehangach o'u gwlad, oherwydd anaml y mae penawdau'r newyddion yma'n sôn am y sefyllfa ym Madagascar. Maen nhw eisiau i bobl yng Nghymru gofio'u brodyr a'u chwiorydd ym Madagascar, gweddïo drostynt ac efallai eu helpu yn y gwaith maen nhw'n ei wneud."

Mae'r cysylltiadau hanesyddol trwy ein teulu CWM yn dal yn bwysig ac yn gryf. Fel y dywedodd un aelod o'r grŵp: "Daethom i ddeall o'r newydd ein bod ni, 200 mlynedd yn ddiweddarach a chyfandiroedd ar wahân, yn un yng Nghrist Iesu."

*Fiona Liddell*
*Eglwys Beulah (URC)*

# *Gair Duw ar Waith*
## gan Denzil I. John

### Casgliad o fyfyrdodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd




**Pennod 6**

**'Y Gair ar waith' – Bod ar gael Luc 11:5–13 | 5 Tachwedd**

**Gweddi**

Nefol Dad, cymorth ni yn ein myfyrdod heddiw i ystyried beth sydd gennym yn ein heglwys ac ym mha fodd y gallwn ddefnyddio'r hyn sydd gennym, boed fach, boed fawr, a rhoi'r oll ar allor dy wasanaeth. Amen.

**Darlleniad: Luc 11:5–13**

**Cyflwyniad**

Ar ystad Ysgubor Goch yng Nghaernarfon ceir awydd i fod yn gymorth i drigolion y fro heb ddisgwyl unrhyw beth yn benodol, gydag Eglwys Bresbyteraidd Noddfa yn cynnig gweithwyr cymdeithasol, a hwythau yn eu tro ar gael i wasanaethu trigolion yr ystad. Bu nifer o weithwyr yno yn y gorffennol yn ceisio pontio eglwys a chymdeithas, ac mae'r gweithwyr cyfredol wedi eu hyfforddi i gynnig cyngor i'r trigolion ar sut i lenwi ffurflenni a deall eu hawliau fel dinasyddion. Gwyddom fel y gall tudalennau o ddata edrych mor anodd, ac oni bai fod gan y sawl sy'n ceisio'u llenwi ddealltwriaeth o iaith a thermau ffurflenni felly, mae'n hawdd colli hyder a hefyd colli awydd i barhau.

Bydd Canolfan Noddfa yn agored i'r oedrannus a'r ifanc, y sawl sydd mewn gwaith a'r sawl sydd heb waith; nid oes wahaniaeth beth yw iaith na chefndir y bobl sy'n gofyn cymwynas, bydd y gweithwyr yn Noddfa ar gael i'w cynorthwyo.

Eglwys mewn adeilad bychan a di-nod yw Noddfa, ac nid yw'r gynulleidfa yn sylweddol chwaith. Maent yn ceisio cynnal ysgol Sul ac oedfaon cyson. Ceir cyfarfodydd wythnosol yn ôl y doniau sydd yno, ond eglwys yw hon a'i hwyneb yn edrych am allan, ac yn agored i wasanaethu'r ardal ddifreintiedig sydd o'i chwmpas.

**Myfyrdod**

Faint o eglwysi yng Nghymru sy'n teimlo'u bod yn wan ac yn aneffeithiol, a heb fawr o hyder yn eu doniau a'u golwg ar ystyried cau? Dyma fyddai edrych yn fewnol ac yn ddiobaith, heb weld y byd sy'n teithio heibio. Bydd gan bob unigolyn brofiadau bywyd y gall eu rhannu ag eraill, rhai wedi eu dysgu ar ysgol brofiad lawen a llwyddiannus, tra bydd eraill wedi cael profiadau chwerw ac anodd ond wedi gweld haul ar fryn. Yr her i bob eglwys, lle bynnag y bydd, yw gofyn pa sgiliau sydd ganddynt fel teulu neu fel unigolion y gellir eu cynnig i'r gymuned leol nad yw, o reidrwydd, yn arddel ffydd neu'n gysylltiedig ag unrhyw eglwys. Camp 'yr eglwys ar waith' yw darganfod modd o wneud cyswllt rhyngddi a'r byd tu fas i'r adeilad ac, mae'n siŵr, â'r cylch adnabod naturiol sydd gan aelodau'r eglwys. Nid gwasanaethu ein hunain na phobl debyg i ni yw amcan eglwys, ond bod ar gael i'r gymdeithas ehangach. Camp lwyddiannus eglwys Noddfa ar ystad ddifreintiedig Ysgubor Goch yw agor drws a bod ar gael i eraill.

Yn y darlleniad heddiw, nid yw'r sawl sy'n gofyn yn cael ateb ffafriol iawn. Pwy sy'n gofyn rhywbeth gennym ni, ac i ba raddau rydym yn barod i rannu'r hyn sydd gennym? Mae hanes Noddfa yn mynd â'r torthau allan at y newynog ac yn dyheu am weld eraill yn dod, nid yn unig at y bwrdd, ond at Fwrdd y Bywyd.

**Gweddi**

Diolch, Arglwydd, am aelodau a gweithwyr dy eglwys yn Noddfa. Boed i'r gymdogaeth sylweddoli dy fod ar waith yn eu plith ac yn estyn o'th fwrdd mewn modd llawer helaethach nag y gallant ei ddychmygu. Amen.

**Cwestiynau i'w hystyried**

1 A oes perygl i ni feddwl am weddi fel elfen ffurfiol mewn oedfa, heb brofi'r taerineb hwnnw o angen dyn gerbron Duw?
2 Pa elfennau o weddi gyhoeddus yw'r pwysicaf yn eich barn chi: mawl, diolch, eiriolaeth, cyffes neu ymgysegriad?
3 Ai drws agored neu ddrws caeedig sydd i'n capeli a'n cymdeithasau ni?
4 Pa wedd o weddi sy'n dod gyntaf – edrych i fyny at Dduw, edrych oddi mewn i ni ein hunain, neu edrych allan tuag at y byd o'n cwmpas?
5 A oes unrhyw gymal y carech ei ychwanegu at weddi'r Arglwydd, neu a yw'n hollgynhwysol yn barod?


Eglwys Bresbyteraidd Cymru

**Henaduriaeth Mid Wales and Border**

## Gweithiwr Cenhadol Arloesol

Mae Henaduriaeth Mid Wales and Border yn dymuno penodi Gweithiwr Cenhadol Arloesol i ddatblygu gweinidogaethau plant ac ieuenctid a darparu ffocws ar gyfer ymestyn allan i gymunedau gwledig a ffermio

**Oriau:** 35 awr yr wythnos.

**Cytundeb:** 3 blynedd gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf.

**Cyflog:** Band 22-26 (£24,727 - £26,950) ar raddfa cyflog EBC. Bydd cyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC

**Lleoliad:** Gweithio o gartref ac yn ardal Llanfair-ym-Muallt a Llandrindod.

Mae'r Swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol.

Mae Gofyniad Galwedigaethol Cristnogol yn berthnasol i'r swydd hon.

Am ragor o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch â:-

e-bost: Shanta.Rupalia@ebcpcw.cymru

ffôn: 07787 522904/02920 627465

**Dyddiad cau: 8 Tachwedd, 2023 am 4pm.**


S4C *Dechrau Canu, Dechrau Canmol*
**Sul, 5 Tachwedd, am 7.30yh**
Bydd Lisa Gwilym yn sir Feirionnydd i ddathlu 200 mlwyddiant addoldy arbennig iawn – Capel Soar, Cynllwyd. Cawn ddysgu mwy am hanes yr achos gan yr hanesydd Beryl Hughes Griffiths a'r gweinidog, Carwyn Siddall. Daw'r emynau o'r Hen Gapel, Llanuwchllyn, a chawn berfformiad gan Gôr Plant yr Ofalaeth.

BBC radio cymru *Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 5 Tachwedd, am 7:30yb a 16:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni'r Parchedig Evan Morgan, Caerdydd

**Sul, 5 Tachwedd, am 12yp**
Oedfa dan ofal Nesta Davies, Abergele

# Arwydd ffordd

Fe basiais i fy mhrawf gyrru y tro cyntaf ... ond dydw i ddim mor sicr y buaswn i'n llwyddo heddiw – nid am fy mod yn yrrwr gwael (waeth beth ddywed Ifan!), ond oherwydd yr angen i sefyll arholiad theori. Dim ond tua thri chwestiwn a ofynnwyd yn ystod y prawf ymarferol yn oes yr arth a'r blaidd, ond rhaid pasio'r 'theori' bellach, a dangos gwybodaeth drylwyr o neges arwyddion ffyrdd ymhlith pethau eraill. Yr arwydd hwn er enghraifft?



### Adnabod arwyddion

Cyffordd T – wel ie. Ond rhaid cyfaddef nad oeddwn i'n gwybod (neu'n cofio) bod y fraich dewach yn dangos pwy sy'n cael blaenoriaeth (teithwyr o'r dde i'r chwith).

Ar daith bywyd ceir sawl cyffordd T o'n blaen, pan mae angen penderfynu troi i'r dde neu i'r chwith e.e. dewis coleg neu brentisiaeth. Mae Duw hefyd yn dod â ni at gyffordd T o ran ein hymateb iddo Ef, a'r Arglwydd Iesu. Dymuniad Duw yw i ni droi a theithio'r ffordd sy'n ein harwain ato Ef, wrth ddilyn Iesu. Fel mae'n rhaid penderfynu troi'r car i'r dde neu'r chwith, mae pwynt yn dod pan mae Duw'n gofyn, 'Wyt ti am droi ata i a'r Iesu neu gerdded y ffordd arall?'

### Dilyn Duw

Penderfynodd Adda (gyda help Efa, y *back seat driver*) droi i'r cyfeiriad anghywir. Troi fel arall wnaeth Josua wrth ddatgan 'Dw i a'm teulu yn mynd i addoli'r Arglwydd!' (Josua 24.14).

Penderfyniad yr Israeliaid ar Fynydd Carmel oedd troi at y Duw 'go iawn' (1 Brenhinoedd 18) wedi her Elias 'Os mai'r Arglwydd ydy'r Duw go iawn, dilynwch e.' Sylweddolodd y disgyblion (ac eithrio Jwdas) i ba gyfeiriad roedd yn rhaid iddyn nhw deithio a bu iddynt gredu yn Nuw a'i addewidion yn yr Iesu a'i wasanaethu. Roedd Paul wedi mynd ar goll yn llwyr i ddechrau, 7 ond yna gwnaeth *3 point turn* ar ffordd Damascus. (Actau 9)

### Llwybr bywyd

Oedi cyn penderfynu mae llawer, fel petai yna gylchfan fach nepell o'r gyffordd T sy'n rhoi cyfle iddynt fynd rownd a rownd, heb bwyso'r *indicator* y naill ffordd neu'r llall, tuag at neu oddi wrth Dduw. Dywed Duw 'Dewch o ben draw'r byd; trowch ata i i gael eich achub.' (Eseia 45.22)

Does dim map mwy eglur. Dyma gyffordd T bwysicaf ein bywyd. Ydyn ni wedi pwyso'r *indicator*, neu'n parhau i wastraffu amser a throi mewn cylch?

**Catrin Roberts**
(allan o *Llusern*, papur eglwys Ebeneser Caerdydd, Medi-Hydref 2023)




**Dydd Gweddi'r Byd**
Yr Is-bwyllgor Cymraeg (Rhyngenwadol)

Cynhelir
**Cynhadledd**
yn Eglwys Gydenwadol Emaus, Bangor
Dydd Mercher, 15 Tachwedd 2023
10yb tan 1yp

**Thema**
Rwy'n erfyn arnoch i oddef eich gilydd mewn cariad
Paratowyd y Gwasanaeth ar gyfer 2024
gan ferched Palesteina

Cyfle i baratoi ar gyfer Dydd Gweddi 2024

Croeso cynnes i bawb.

**Dydd Gweddi'r Byd**
Yr Is-bwyllgor Cymraeg (Rhyngenwadol)

Cynhelir
**Cynhadledd**
yn festri Capel Heol Awst, Caerfyrddin
Dydd Mercher, 29 Tachwedd 2023
10.30yb tan 12yp

**Thema**
Rwy'n erfyn arnoch i oddef eich gilydd mewn cariad
Paratowyd y Gwasanaeth ar gyfer 2024
gan ferched Palesteina

Cyfle i baratoi ar gyfer Dydd Gweddi 2024

Croeso cynnes i bawb.

## Limrig: Heddwch

Mae'r limrig hwn mewn ymateb i gynllun llywodraeth y DU sy'n cartrefu ffoaduriaid mewn gwesty sy'n arnofio. Bu rhaid tynnu'r rheiny oedd yn byw yno o'r gwesty'n ddiweddar oherwydd afiechyd a oedd yn y dŵr. Ond pa synnwyr?

Pa synnwyr yw gosod ffoaduriaid mewn llety ar ddŵr?

O ystyried yr holl adeiladau gwag sydd yn ein trefi a'n dinasoedd, pam na ellir eu trawsnewid i fflatiau cysurus ar gyfer teuluoedd sy'n ffoi?

Petai rhywun yn dod i'ch tŷ chi, a fyddech chi'n eu rhoi nhw yn y bath? Neu beth petaem ni yn y sefyllfa hon? Yn gorfod ffoi o'n cartrefi a darganfod ein bod yn gorfod byw mewn hen beth budur sy'n arnofio? Gwarth!

**Mae pobol yn cysgu'r nos heno**
**mewn ynys o westy'n arnofio,**
**a Rishi a'i griw**
**yn methu rhoi fiw**
**o ots am y briw a'r brwydro.**



# Barn Annibynnol

**‘Yr hyn sydd yn y golwg a wêl meidrolyn, ond y mae’r Arglwydd yn gweld beth sydd yn y galon.’**

**(1 Samuel 16:7)**

‘Nid yn ôl eich pryd a gwedd mae mesur eich gwerth.’ Dyna ddyfyniad o lyfr Emma Dahiri o’r enw *Disobedient Bodies: Claim Your Unruly Beauty* (Profile Books and The Wellcome Collection). Ynddo mae’r awdur yn mynd i’r afael ag arolwg diweddar ymysg genethod rhwng saith ac un ar hugain oed. Roedd naw allan o ddeg o’r rhai a holwyd yn cyfaddef eu bod yn pryderu’n ddirfawr ynglŷn â’u hedrychiad ac roedd llai yna 20% ohonynt yn honni eu bod yn hapus. Ydi, mae’n anodd bod yn ferch o unrhyw oed y dyddie hyn; mae pwysau affwysol ar ieuenctid i ymdebygu i bawb arall, ac i’r rhai ohonom sy’n ganol oed mae ceisio arafu’r broses o heneiddio yn boendod cyson! Peth anodd ydyw i bawb – beth bynnag eu rhywedd.

**‘Y mae tegwch yn twyllo’**

**(Diarhebion 31:30)**

Ymddengys bod hunan-barch yn gyffredinol is nag y bu erioed o’r blaen. Byd y gwefannau cymdeithasol twyllodrus sy’n cael y bai yn aml. Nid yw hyn yn fy synnu. Cofiaf fel y bu i gyfnod yr ynysu yn 2020 effeithio ar fy hyder, a sylweddolaf fy mod yn byw gyda gwaddol y cyfnod hwnnw o hyd. Mae’r cymharu digidol diddiwedd yn creu elfen amddiffynnol ac yn golygu bod ymlacio’n anodd. Dywedir wrthym mai peth bas yw poeni am sut mae eraill yn ein gweld ni, ond ofnwn y cawn ein hamddifadu o gyfleon os nad ydym yn cyfateb i’r ddelfryd. Mae’n wir fod y cyfryngau cymdeithasol wedi rhoi llwyfan i bawb ac wedi amlygu pwysigrwydd dathlu amrywiaeth, ond mae hefyd wedi creu delfryd beryglus o afreal ac anghyraeddadwy o harddwch. Lle bu dim ond y drych yn ein beirniadu, erbyn hyn fe’n gwelir ni gan y byd a’r betws, a phob digwyddiad wedi’i ddogfennu’n ddigidol. Cawn ein cyflyru i feddwl y dylem gymharu ein hunain ag eraill, hyd yn oed o fewn caer cyfeillgarwch ar adegau. Gwyddom ym mêr ein hesgyrn mai rhuddin ein cymeriad sy’n ein gwneud yr hyn ydym. Dylem ymddiried yn y bobl hynny sy’n ein derbyn yn gyfan gwbl, fel y mae Duw hefyd yn ein trysori.

**‘Crist gyda baw dan ei ewinedd yw ein Gwaredwr ni’**

**(Nadia Bolz-Weber)**

Mewn cyfweliad ar-lein a recordiwyd o gadeirlan Washington (cyfres *Honest to God*) mae Nadia Bolz-Weber yn datgan nad ceisio ein harddu mae ein Duw, ond yn hytrach ein hadnewyddu’n gyson. Dywed hefyd nad oes angen inni ymboeni ynglŷn â chyrraedd yr uchelfannau o ran cyrhaeddiad eglwysig ychwaith, ond yn hytrach ymroi i fod yn llannau llanast lle y gallwn drio gweithredu syniadau newydd a hynny heb ddisgwyl llwyddiant bob tro. Byddwn barod i gyfaddef pan nad yw pethau bob amser yn berffaith, ymroi i drafod yn dryloyw – yn hael a brwd ein hawyddfryd, a theimlo calon yr eglwys yn curo.




**‘Gwau edafedd gorffennol i batrwm newydd wnaeth Crist a rhyddhau trysorau ffydd i bawb’**

**(Y Parchedig Ddoctor Vivian Jones)**

Cydnabyddwn fod gwir harddwch wedi bodoli yn noe ein crefydd, ond hefyd bod rhai o’n traddodiadau prydferth wedi colli eu sglein erbyn hyn. Edafedd disglair ddefnyddiodd Crist i wau dysgeidiaeth ei gariad â chalonnau pobl. Cofiaf sgwrs ddigidol a gawsom fel Annibynwyr gan Lydia Neshangwe ym Mehefin 2021, lle bu’n trafod y posibilrwydd o ddal i obeithio wrth orfod dygymod â’r hyn a adnabyddwn yn dymchwel o’n cwmpas ac yna’r harddwch ddaw yn broses o ailadeiladu ac ail-greu a thrwyddi. Mae’r cyfnod ôl-covid hwn yn anodd i gymdeithas ac eglwysi a’r dirywiad cyffredinol yn ein llethu. Serch hynny, gwelwn rai eglwysi yn gyson hardd ar eu gwefannau cymdeithasol a dathlwn hyn o beth gyda hwy. Ond i’r eglwysi hynny nad ydynt â’r modd i weithredu fel hyn, dylid cydio yn y wybodaeth bod ein Harglwydd yn gweld pob ymgais, pob brwdfrydedd, a phob gwneud a gobeithio gwneud fel calon harddwch yr eglwys. Yr ydym i gyd yn werthfawr yn ei olwg fel pobl amrywiol ac fel eglwysi.

**Sian Meinir**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na’r tîm golygyddol.)

# Cae o Ŷd

Yn Eisteddfod Clybiau’r Ffermwyr Ifanc eleni, y darn gosod ar gyfer y partïon unsain yw’r clasur o gân gan Martin Beattie, ‘Cae o Ŷd’. Mae’n hen gân erbyn hyn sy’n gyfarwydd i ni i gyd. Mae’n sôn wrth gwrs am ddyfodiad y mileniwm newydd. Y ‘bennod newydd’ lle y gwelwyd ‘pawb yn agor y llen’ i groesawu cyfnod newydd mewn hanes; dechreuad newydd i’r oed. Llawenydd, gorfoledd – popeth yn wahanol a newydd, yntife? Wrth gwrs, yr hyn a geir yn y gan yw’r reality bod yr ‘anawsterau’ yn parhau ac nad yw’r ‘ddrama byth yn newid’, ond yn hytrach y rheiny sydd wrth y llyw. Ceir stori Esther yn y Beibl lle gwelir Hamas yn lladd yr Iddewon. Gwelir y dinistr mae Ffaro, Herod a brenhinoedd eraill yn eu gwneud wrth fynd i ryfel a gweld bod angen gormes a thrais er mwyn datrys problemau – ond wrth gwrs, cynyddu mae’r problemau hynny.

## Anghredadwy

Heb os nac oni bai, mae’r rhyfel yn y Dwyrain Canol yn effeithio arnom, bob un – boed yn Gristnogion, Iddewon, Mwslemiaid neu’n ddi-gred. Mae’r hyn sy’n cael ei weithredu gan rymoedd creulon yn anghredadwy o ran y graddau eithafol. Y cwestiynau sy’n aml yn mynd rownd y meddwl yw sut gall unigolion fod mor greulon? Beth mae hyn yn ei ddatrys? Pwy sy’n elwa? Ble mae’r synnwyr?!

A’r cwestiwn mwyaf oll – beth allwn ni wneud?

Mae’r teimlad o fethu gwneud rhywbeth yn ein hanobeithio. Mae’r methu a chofleidio plant bach ofnus a rhieni pryderus yn ein tristáu ac yn sicr yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a’r ffordd ry’m ni’n ymateb i bethau bob dydd. Mae’n hynod o anodd i weld y newyddion beunyddiol am y brwydro parhaus, ac mae’n frith ar yr holl gyfryngau cymdeithasol. Mae wir yn hynod o drist ac yn llethol i’r rheiny ohonom sy’n teimlo’n lwcus o fod mor bell o’r holl frwydro, ond eto’n ffaeledig nad oes rhywbeth mwy y gallwn ni ei wneud.

## Cymorth

Mae’r apêl Cymorth Cristnogol sydd yn y rhifyn hwn yn dangos sut y gallwn gyfrannu’n ariannol tuag at drueiniaid Gaza. Bydd yr hyn a fydd

*parhad ar y dudalen gefn*

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.


# Cae o Ŷd – *parhad*

yn cael ei godi gan Gymorth Cristnogol yn cael ei fuddsoddi i brynu matresi gwely i'r rheiny sydd wedi colli eu cartrefi, bwyd a diod gan nad oes fiw ddim ar lawr gwlad a meddyginiaethau a nwyddau gofal ar gyfer doctoriaid a nyrsys er mwyn trin cleifion.

Ond fel y gwyddom hefyd, mae'r esgid fach yn gwasgu, ac mae'r argyfwng costau byw sydd ar ein stepen drws hefyd yn gweiddi am gymorth. Gyda banciau bwyd yn gweld llai a llai o nwyddau'n cael eu darparu a mwy o alw amdanynt, mae henoed, plant a theuluoedd yn colli prydiau bwyd, yn oer ac yn sâl. Mae'r holl argyfyngau hyn yn medru bod yn ormod. Yn faich mawr. Oes, mae gennym le i fod yn ddiolchgar i Dduw, ond rydym hefyd yn cael ein llethu gan yr argyfyngau hyn.

### Hedyn gobaith

Beth allwn ni ei wneud? Mae'r ateb yn y gân. Er bod 'sŵn y gynnau'n tanio'n dal i'w clywed yn y nos' gallwn ni newid. Dim ond un hedyn sydd angen ei blannu. Un. Un hedyn bach o obaith. Boed hynny'n un gân yn y byd, yn un weddi y dydd, yn un weithred o gymorth. Mae gwneud yr un peth yna'n help mawr i'n byd ni sy'n llawn gormes a thrais ac unigedd. Danfonwch neges at ffrind, gofynnwch i gyfaill weddïo gyda chi, darllenwch y Beibl gyda'ch rhieni, gyda'ch plant. Gwnewch yr hyn a fydd yn eich helpu i weithredu. Mae ein Duw yn Dduw byw ac mae Ef eisiau ein defnyddio fel ei weision Ef er mwyn creu'r byd y daeth Iesu Grist i'w drawsnewid. Cadwn y Ffydd a gadewch i ni oll roi un hedyn yn y tir a fydd yn tyfu i fod yn gae o hapusrwydd, heddwch a llawenydd.







# Colofn Geir-iau – parhad



wynebu'r rhain rydych yn ddwylo a llwybr Iesu, rydych yn gweddïo ac rydych yn darllen y Beibl. Cyfrwch eich bendithion!

Dwi wedi cael cyfle blwyddyn ddiwethaf i fynd i gynhadledd fforwm blynyddol yr Undebau Cristnogol oedd yn cael ei gynnal ar bwys y Waun. Roedd hyn yn brofiad gwefreiddiol, o weld cannoedd o Gristnogion ifanc yn campio mewn un lle ac yn dod ynghyd yn y boreau ac yn y nos i gael gwasanaeth torfol, mewn pafiliwn tebyg i'r Eisteddfod Genedlaethol, a chanu mawl modern. Roeddwn yn teimlo rhyw ysbryd and oedden erioed wedi teimlo o'r blaen. Hefyd cefais gyfle i ddarllen beibl.net yn y Gymraeg ar y llwyfan mawr un bore, roedd yn brofiad arbennig.

Mae'r profiadau dwi wedi cael yn yr Undeb Cristnogol wedi dysgu fi i estyn allan at fy ffrindiau. O ganlyniad i'r amgylchedd yn fyd-eang heddiw mi gredaf, dylid caru ein cyd-ddyn a bod heddwch a chymod yn alwad clir. Nid yw rhyfel byth yn ateb. Ac mae'r agwedd bositif yma ar fywyd â'r bywyd i ddod yn gannwyll o oleuni mewn amser tywyll. Fel dywed yn

### Gobaith

Wrth orffen dwi'n cynnig gobaith i chi. Ein bod ni'n gallu gwneud gwahaniaeth. Os ydyn yn gwneud y pethau bach fel dywed Dewi Sant gallwn roi diwedd ar dlodi plant, gallwn leihau'r effeithiau mwyaf o newid hinsawdd a gallwn ganlyn heddwch byd-eang. Ond mae rhaid i ni weithio gyda'n gilydd i wneud hynny. Ac mae rhaid i ni weithredu heddiw cyn ei bod yn rhy hwyr i genedlaethau heddiw a rhai yfory. Mae'n bosib ei wneud drwy rym ein newyddion da!

**Cai Phillips**

(Mae Cai yn y drydedd flwyddyn ym Mhrifysgol Aberystwyth yn astudio Gwleidyddiaeth. Mae e'n fab ffarm ym mhentref Bryn Iwan ac mae'n mwynhau yn yr awyr agored.)

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*